Estyn

*Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all*

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad arolygu monitro blynyddol ar:

# Ysgol Priory Talocher

## Dyddiad yr arolygiad: Gorffennaf 2014

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â’r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae’r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 05/09/2014**

## Cyd-destun

Ysgol arbennig annibynnol i ddisgyblion ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol (ACEY) ac anghenion cysylltiedig yw Ysgol Priory Talocher.  Caiff ei gweinyddu gan Wasanaethau Addysg Priory.  Mae hyn yn rhan o'r Grŵp Priory ehangach, sydd â thros 30 o ysgolion a cholegau arbenigol ledled Cymru a Lloegr.

Mae'r ysgol yn darparu addysg i ddisgyblion nad ydynt yn gallu mynychu ysgolion prif ffrwd yn ogystal â disgyblion sy'n preswylio yng nghartrefi plant Priory.

Mae 21 o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 3 a 4 ar hyn o bryd.  O'r rhain, mae 18 o fechgyn a thair merch.  Mae un deg tri ohonynt yn cael gofal gan awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr.  Mae gan bob un o'r 21 disgybl ddatganiad o anghenion addysgol arbennig (AAA).

Cynhaliodd Estyn arolygiad llawn yn yr ysgol ym Mehefin 2013.

Mae newidiadau staffio diweddar yn cynnwys penodi athro mathemateg arbenigol/cydlynydd rhifedd ac athro gwyddoniaeth arbenigol.

## Prif ganfyddiadau

### Cryfderau

**Dyma yw cryfderau'r ysgol:**

- mae wedi gwneud cynnydd da yn mynd i'r afael ag argymhellion arolygiad 2013;
- mae'r pennaeth a'r uwch dîm rheoli yn darparu arweinyddiaeth gref a hynod effeithiol;
- mae gan staff rolau a chyfrifoldebau clir ac maent yn gweithio'n dda iawn fel tîm;
- mae gan athrawon gymwysterau a phrofiad perthnasol a phriodol, ac maent yn cynllunio a chyflwyno gwersi'n dda;
- mae disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu ac yn gwella'u hymddygiad a'u medrau cymdeithasol yn dda dros gyfnod; ac
- mae disgyblion yn elwa ar ystod arloesol o gyfleoedd dysgu.

### Meysydd i'w datblygu

**Dyma yw meysydd yr ysgol i'w datblygu:**

- er ei bod wedi gwneud cynnydd da yn mynd i'r afael â phob un o'r argymhellion o'r arolygiad blaenorol, megis dechrau y mae gwaith yn ymwneud â dau o'r argymhellion; ac
- mae'r broses hunanarfarnu wedi'i hymgorffori'n dda yn yr ysgol.  Fodd bynnag, mae rhai adrannau o'r adroddiad hunanarfarnu yn rhy ddisgrifiadol ac nid ydynt yn arfarnu effaith agweddau penodol ar fywyd yr ysgol ar safonau disgyblion yn ddigon trylwyr.

## Argymhellion

A1 Parhau i wella cyfleoedd i staff ddatblygu a rhannu arfer orau trwy ymweld â lleoliadau allanol

A2 Sicrhau bod pob disgybl yn cael cyfleoedd priodol i ennill cymwysterau achrededig perthnasol mewn llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh)

A3 Sicrhau bod yr adroddiad hunanarfarnu yn arfarnol a'i fod yn cynnwys ffocws clir ar safonau disgyblion

## Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o nodyn ymweliad neu adroddiad arolygu blaenorol

**Argymhelliad 1:** Cynyddu cyfleoedd i athrawon arsylwi arfer orau mewn addysgu yn yr ysgol ac mewn lleoliadau tebyg eraill

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae pennaeth yr ysgol isaf ac arweinydd y cwricwlwm wedi dyfeisio rhaglen ddwy flynedd i bob athro arsylwi arfer orau yn yr ysgol, ac mewn lleoliadau tebyg. Caiff athrawon hyfforddiant priodol i gynnal arsylwadau cymheiriaid a llenwi'r ffurflen arsylwi gwers ac arfer dda a luniwyd gan yr ysgol.

Mae pob un o'r athrawon wedi arsylwi ei gilydd o leiaf unwaith yn yr ysgol. Maent yn trafod yr arfer dda a welwyd yn y wers gyda'r athro ac yn adrodd yn ôl wrth bob un o'r staff ar yr hyn y maent wedi'i ddysgu a sut y byddant yn gwella'u harfer eu hunain. Mae enghreifftiau yn cynnwys dull gwers thema a strategaethau ymddygiadol priodol i wneud yn siŵr bod disgyblion yn gweithio'n ddiwyd ac yn ymgymryd yn dda â'u dysgu.

Bydd y rhaglen ar gyfer 2014-2015 yn galluogi pob un o'r athrawon i arsylwi arfer orau mewn lleoliadau tebyg eraill yn ogystal ag yn yr ysgol.

Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da o ran yr argymhelliad hwn. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i fesur effaith lawn y rhaglen.

**Argymhelliad 2:** Defnyddio data yn fwy effeithiol i arfarnu effaith yr addysgu ar gynnydd disgyblion a llywio cynllunio

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae'r ysgol yn defnyddio ystod gynyddol o asesiadau priodol i fesur ac olrhain cynnydd disgyblion. Caiff data ei gasglu deirgwaith y flwyddyn a'i ddadansoddi'n effeithiol gan reolwyr ac athrawon. Mae'r athrawon yn defnyddio'r data hwn yn effeithlon i nodi disgyblion mwy abl, arfarnu effaith yr addysgu ar gynnydd disgyblion a chynllunio ar gyfer datblygu'r cwricwlwm. Ar ôl dadansoddi'r data hwn, mae'r ysgol wedi aildrefnu'r grwpiau addysgu, er enghraifft mewn mathemateg. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar gyflawniadau disgyblion mewn dysgu ac ar eu lles.

Mae'r ysgol yn trefnu rhaglenni cymorth ac ymyrraeth priodol ar gyfer disgyblion nad ydynt yn gwneud y cynnydd disgwyliedig mewn meysydd penodol o'r cwricwlwm. Mae'r rhain yn cynnwys cynlluniau darllen strwythuredig, rhaglenni hybu llythrennedd a rhaglenni rhifedd.

Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad hwn.

**Argymhelliad 3:** Cynyddu cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau TGCh a rhifedd ar draws y cwricwlwm

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae'r ysgol wedi penodi athro mathemateg arbenigol a chydlynydd rhifedd yn ddiweddar. Mae cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm wedi cynyddu. Caiff y cyfleoedd hyn eu cynllunio'n dda ac maent yn effeithiol. Caiff rhifedd ei integreiddio'n effeithiol mewn cynllunio gwersi ac mae prosiect menter newydd ysgol gyfan i gadw gwenyn yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau rhifedd mewn sefyllfa bywyd go iawn. Mae'r ysgol yn trefnu sesiynau rhifedd priodol yn ystod gwasanaethau ac mae'n trefnu heriau rhifedd ysgol gyfan effeithiol.

Caiff yr ystafell TGCh ei defnyddio'n rheolaidd ac mae'r ysgol wrthi'n creu ail ystafell TGCh i gynyddu ymhellach y cyfleoedd i bob disgybl ddatblygu eu medrau TGCh yn llawn ar draws y cwricwlwm. Yn ychwanegol, mae'r ysgol wedi gwella ystod yr adnoddau TGCh ym mhob un o'r ystafelloedd dosbarth. Er enghraifft, mae gan bob ystafell ddosbarth fyrddau gwyn rhyngweithiol erbyn hyn ac mae saith cyfrifiadur bwrdd gwaith ar gael mewn meysydd pwnc penodol. Gall pob un o'r staff fanteisio ar gyfrifiaduron llechen electronig i nodi rhagor o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu a defnyddio eu medrau TGCh. Mae disgyblion yn defnyddio TGCh yn dda i greu cyflwyniadau PowerPoint, ymchwilio ar y rhyngrwyd, llunio taenlenni a chronfeydd data a chwblhau eu gwaith cwrs.

Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad hwn.

**Argymhelliad 4:** Cynyddu cyfleoedd i ddisgyblion ennill cymwysterau achrededig mewn llythrennedd, rhifedd a TGCh

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da o ran cynyddu ystod y cyrsiau achrededig priodol mewn llythrennedd, rhifedd a TGCh. Maent wedi ystyried ystod eang o gyrsiau achrededig ac wedi mabwysiadu dull hyblyg o wneud yn siŵr bod y cyrsiau y maent yn eu cynnig yn bodloni anghenion newidiol ac amrywiol y disgyblion. Maent wedi cyflwyno Sgiliau Gwaith BTEC a Sgiliau Swyddogaethol City and Guilds mewn llythrennedd a rhifedd a Sgiliau Hanfodol Cymru CBAC a chyrsiau Defnyddwyr TG BTEC Edexcel mewn TGCh.

Mae'r ysgol yn cyflwyno rhagor o gyrsiau yn 2014-2015 sy'n cynnwys Cyrsiau AQA Llythrennedd i Oedolion a Rhifedd i Oedolion a chyrsiau TGCh Sgiliau Swyddogaethol CBAC.

Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i weld effaith ystod gynyddol yr achredu ar gyflawniadau disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 4.

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

### Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 2.

### Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Safon 5: Adeiladau a llety preswyl mewn ysgolion

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

### Safon 6: Darparu gwybodaeth

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 6.

### Safon 7: Y modd y dylid ymdrin â chwynion

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 7.

## Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, efallai byddai Cynulliad Cenedlaethol Cymru am ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad monitro blynyddol hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Gwybodaeth am yr ysgol

| | |
|---|---|
| **Ysgol** | Ysgol Priory Talocher |
| **Rhif yr ysgol** | 679/6014 |
| **Diben yr ymweliad** | Arolygiad monitro blynyddol |
| **Dyddiad yr ymweliad** | 2 a 3 Gorffennaf 2014 |
| **Perchennog** | Gwasanaethau Addysg Priory |
| **Staff** | 7 athro, 1 cynorthwyydd addysgu, 1 gweithiwr cymorth bugeiliol<br>ac 1 pennaeth |
| **Nifer y disgyblion** | 21 |
| **Darpariaeth** | Darpariaeth ddydd |
| **Math o angen addysgol arbennig (AAA) y mae'r ysgol yn darparu ar ei gyfer** | ACEY ac anghenion cysylltiedig |
| **Arolygiad Adran 163 diwethaf** | Mehefin 2013 |
| **Arolygiad monitro blynyddol diwethaf** | Medi 2012 |
| **Arolygiad diwethaf gan AGGCC** | Ddim yn berthnasol |

## Gwybodaeth am y tîm

| | |
|---|---|
| **Arolygydd Cofnodol** | Ann Dackevych |
| **Arolygydd Tîm** | Meinir Rees |